COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD IAU, 21 GORFFENNAF 2022, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | RM Granville |
| S J Griffiths | M L Hughes | M Jones | RL Penhale-Thomas |
| T Thomas | G Walter | AJ Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Mark Shephard

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

11. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cyng. Heidi Bennett fuddiant personol yn yr adroddiad ar Fonitro’r Gyllideb 2022-23 - Rhagolwg Refeniw Chwarter 1 gan fod y sefydliad y mae’n gweithio iddo wedi’i nodi yn un â hawl trosglwyddo arian ym mharagraff 4.1.10 o’r adroddiad hwnnw.

Datganodd y Cynghorwyr Alex Williams, Heidi Bennett, Paul Davies a Martyn Jones fuddiannau personol yn yr adroddiad ar Berfformiad y Cyngor yn Erbyn ei Ymrwymiadau ar gyfer y flwyddyn 2021-22, gan eu bod yn landlordiaid preifat yn y Fwrdeistref Sirol.

Datganodd y Cynghorydd Tîm Thomas fuddiant rhagfarnus yn yr adroddiad ar Berfformiad y Cyngor yn Erbyn ei Ymrwymiadau ar gyfer y flwyddyn 2021-22, gan ei fod yn swyddog ymgyrchoedd a materion cyhoeddus y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl Cenedlaethol.

Datganodd y Cynghorydd Freya Bletsoe fuddiant personol yn yr adroddiad ar Berfformiad y Cyngor yn Erbyn ei Ymrwymiadau ar gyfer y flwyddyn 2021-22, gan fod aelod o’i theulu yn gweithio i’r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl Cenedlaethol.

12. MONITRO’R GYLLIDEB 2022-23 - RHAGOLWG O REFENIW CHWARTER 1

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i’r Pwyllgor ar sefyllfa ariannol a refeniw’r Cyngor ar 30 Mehefin 2022.

Holodd Aelod am danwariant o £459,000 yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, gan ei bod hi'n pryderu mai yn y Gyfarwyddiaeth honno mae'r rhan fwyaf o gwynion gan etholwyr. Yn ogystal, roedd ymatebion i Atgyfeiriadau gan Aelodau'n aml yn nodi nad oedd digon o gyllideb i gyflawni'r gwaith angenrheidiol. Holodd hefyd pam fod diffyg o £95,000 ar ostyngiadau'r gyllideb yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, pan y rhagwelir tanwariant o £459,000?

Nododd yr Aelod Cabinet Cymunedau mai rhagolwg oedd y tanwariant, a'i fod heb ei gadarnhau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod oedi o ran arbedion y gyllideb o £160,000 ar gyfer 2021-22, gan gynnwys arbediad o £100,000 ar gyfer y Cynllun Caniatáu, a oedd â'r bwriad o godi tâl ar gwmnïau cyfleustodau sy'n cloddio ffyrdd. Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Cynllun nac ymateb i'w gynnig.

O ran y Ganolfan Ailgylchu Cymunedol (CRC) ym Mhîl, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad oedd trwyddedu wedi'i derbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru (NRC) a'i fod wedi'i godi'n wleidyddol yn sgîl y materion gweithredol yn deillio o hyn.

Mewn perthynas â'r gostyngiadau i'r gyllideb gwerth £150,000 yn ystod y flwyddyn, roedd £55,000 wedi'i gyflawni. Doedd dim modd cyflawni £95,000 oherwydd dau faes.

Nododd mai'r mater cyntaf oedd disodliad aflwyddiannus bagiau gwastraff bwyd bioddiraddadwy gyda bagiau plastig. Eglurodd bod bwyd yn torri i lawr yn llawer cynt na'r bagiau bioddiraddadwy, ac oherwydd hyn, roedd y cwmni'n tynnu'r bwyd allan o'r bag, yn rhoi'r bwyd mewn treuliwr, ac yna'n gwaredu'r bag. Cadarnhaodd bod y bagiau presennol yn costio £35,000 yn fwy na'r bag untro, a hefyd ei bod hi'n bosibl bod dadl genedlaethol am y microronynnau a allai fod yn bresennol wedi atal y newid a'r arbediad.

Nododd mai'r ail faes lle roedd arbediad o £60,000 wedi bod yn aflwyddiannus oedd gosod yn fasnachol adain yn Llys Ravens, oherwydd meddiant parhaus y ganolfan frechu a bod y Cyngor hefyd yn meddiannu rhannau o'r adeilad. Nododd bod model gwasanaethau'r dyfodol ar waith, fodd bynnag, doedd dim modd gosod yr adain nes cael cadarnhad na fyddai angen y llety ar y Cyngor.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedol mai rhagolwg Chwarter 1 oedd tanwariant o £459,000. Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 17 yn y pecyn Adroddiadau, a oedd yn cynnwys y manylion o ble gallai tanwariant a gorwariant posibl ddigwydd yn y Gyfarwyddiaeth a fyddai'n arwain at danwariant o £459,000. Nododd hefyd y byddai'r ffigur yn newid yn ystod bob Chwarter.

Cadarnhaodd bod tanwariant presennol ar wastraff, gyda gostyngiad o 3.9% yn yr arian a delir am y ganolfan ailgylchu deunyddiau. Fodd bynnag, gan fod tunelledd y gwastraff a gesglir yn cynyddu, roedd yn rhagweld y gallai'r tanwariant gael ei falansu yn ystod y flwyddyn.

Amlygodd hefyd bod arbedion wedi dod i'r amlwg yn y gyllideb goleuadau stryd drwy gyflwyno goleuadau LED, gyda rhagolwg o danwariant posibl o £271,000. Fodd bynnag, roedd prisiau ynni'n cynyddu'n sylweddol, yn ogystal â chwyddiant pris costau ar y ffordd, felly roedd angen monitro hyn.

Roedd rhagolwg o orwariant o ran Landlord Corfforaethol oherwydd diffygion ym meddiant marchnad Pen-y-bont ar Ogwr, y Parc Gwyddoniaeth a'r Ganolfan Arloesedd a oedd yn cynrychioli colled incwm o £230,000.

Fodd bynnag, roedd modd gwneud yn iawn am y diffygion yn yr Adran Landlord Corfforaethol oherwydd y tanwariant o £157,000, oherwydd swyddi gwag yn dilyn proses recriwtio aflwyddiannus.

Cadarnhaodd hefyd bod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau fel arfer yn adennill costau yn y rhan fwyaf o flynyddoedd gyda swm bach iawn naill ai o orwariant neu danwariant. Fodd bynnag, nid oedd yn rhagweld y byddai'r sefyllfa danwariant yn parhau erbyn diwedd y flwyddyn, o ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS), heb grantiau a chymorth refeniw sylweddol.

Holodd Aelod beth oedd yr effeithlonrwydd untro amgen a oedd yn cael eu hystyried er mwyn darparu sefyllfa gyllidebol wedi'i balansu, mewn perthynas ag adleoli'r Ganolfan Ailgylchu'r Cartref o Tythegston i Bîl? Yn ogystal, nododd gyhoeddiad Llywodraeth Cymru y byddai pawb dros 50 oed yn gymwys ar gyfer brechiad atgyfnerthu, a holodd a oedd unrhyw un yn rhagweld y byddai incwm yn cael ei gynhyrchu o Lys Ravens oherwydd hynny? Yn olaf, gofynnodd a oedd y diffyg a ragwelwyd, sef £273,000, neu 42.5% o'r targed gostwng cyffredinol yn sefyllfa gywir ac, o ystyried yr ansicrwydd ariannol a ragwelwyd, a oedd yn sefyllfa gynaliadwy?

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mai'r prif nod oedd cyflawni'r arbediad o £60,000, a gweithio gyda CNC a Kier. O ran cyd-destun, dywedodd ei bod wedi'i siomi bod cais i CNC am drwydded weithredu i'r CRC, yn unol â manylebau CNC, wedi cymryd 9 mis i gael ei ystyried oherwydd problemau adnoddau, yn hytrach na'r 12 wythnos arferol. Cadarnhaodd nad oedd y £60,000 oherwydd y CRC ym Mhîl, ond yn hytrach oherwydd y taliad prydles yn Tythegston. Doedd dim modd gwaredu'r safle nes cyflawni'r symudiad i Bîl.

Cadarnhaodd bod CNC wedi gwrthod y cais gan fod angen cais â chymeradwyaeth i ddefnyddio hydrant y gwasanaeth tan ar y ffordd y tu allan. Nododd fod hyn yn hawdd ei ddatrys, felly roeddent wedi apelio ac ail-gyflwyno i CNC i ofyn iddynt osod amodau ar y drwydded yn hytrach na'i gwrthod. Roedd yn gobeithio cyflawni ychydig o arbedion yn ystod y flwyddyn pan fyddai'r drwydded yn dod i law, a phan y gellid agor y CRC ym Mhîl, ond roeddent wedi ymestyn y drwydded yn Tythegston hyd mis Medi, gyda'r gallu i ymestyn tan fis Ebrill pe byddai angen.

O ran y ganolfan frechu yn Llys Ravens, cadarnhaodd eu bod wedi gofyn i barhau i feddiannu'r adeiniau hynny. Nododd fod incwm rhent ar raddfa fasnachol yn deillio o hynny a fyddai'n parhau.

O ran y diffyg o £273,000 a ragwelwyd, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod hyn yn berthnasol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, gyda'r diffyg yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn £95,000 ar sail y materion bagiau gwastraff bwyd a Llys Ravens yr oedd hi eisoes wedi'u hegluro.

Nododd Aelod fod yr eglurhad a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ynghylch y tanwariant o £459,000 a ragwelwyd yn ddefnyddiol, ond holodd a oedd y dryswch oherwydd problemau terminoleg yn y Saesneg, hynny yw, nodi '*projected outturn*' yn hytrach na '*run rate*'.

Yng nghyd-destun cyfrifeg, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod rhagolygon yn bodoli, ond nododd fod y sefyllfa yn newidiol yn enwedig yn Chwarter 1. Er hyn, roedd ar sail tystiolaeth a'r sefyllfa bresennol.

Nododd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod angen tybio llawer o bethau ar sail gwybodaeth gyfredol ar ddiwedd Chwarter 1. Roedd hyn yn cael ei adolygu'n

rheolaidd wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg, ac wrth i'r sefyllfa gyllidebol ddod yn fwy clir.

Roedd yr Aelod yn awyddus i'r Pwyllgor ddeall yn llwyr y gwahaniaeth rhwng graddfa gyfredol (*run rate*) a'r alldro a ragwelwyd (*projected outturn*), a chadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai'r defnydd o derminoleg benodol yn cael ei ystyried wrth adrodd yn y dyfodol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd mai dim ond yr wythnos honno yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau mewn cyfarfod â'r Prif Weithredwr eu bod yn awyddus i barhau i ddefnyddio Llys Ravens, ac amlygodd ei fod yn enghraifft dda o ragolygu yn yr adroddiad. Hefyd, pwysleisiodd y byddai'r sefyllfa ariannol yn edrych yn wahanol mewn Chwarteri eraill o gymharu â Chwarter 1, ac yn enwedig oherwydd y pandemig a chwyddiant, roedd creu rhagolygon yn anodd o ystyried yr ansicrwydd a ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

Gan gyfeirio at baragraff 4.1.6 o'r adroddiad, gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ffigurau ar gael o ran faint o'r £1 miliwn a gafodd ei gario drosodd i 2022-23 (a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CCMB)) i gefnogi meysydd parcio am ddim oedd wedi'i ddefnyddio. Hefyd, talodd sylw at y pwysau cyllidebol sylweddol yn deillio o swyddi gwag, a gofynnodd am ddatganiad ynghylch canran y swyddi gwag a'r camau oedd ar waith i leddfu'r pwysau hynny.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y gyfradd swyddi gwag wedi cynyddu'n sylweddol, gyda Gofal Cymdeithasol ymhlith y meysydd gyda'r nifer fwyaf o swyddi gwag. Yn ystod y mis diwethaf, bu cyfres o ffeiriau recriwtio yn Sarn, Pîl a Phen-y-bont ar Ogwr, ac ymgyrch parhaus yn hyrwyddo swyddi gwag. Yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, roedd ychwanegiadau'r farchnad wedi'u hystyried a'u cyflwyno os oedd achos busnes, er mwyn ceisio datrys y broblem o swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n barhaus. Amlygodd bod hynny'n adlewyrchu sefyllfa gyffredinol y farchnad lafur, a oedd yn fwy cystadleuol, ac yn golygu bod angen i gyflogwyr gystadlu am staff mewn ffordd nas welwyd ers tro.

Amlygodd y Dirprwy Arweinydd bod prosesau recriwtio wedi bod ar waith ers tro ledled y fwrdeistref sirol, a chydnabuwyd hefyd y sefyllfa anodd ym maes gofal cymdeithasol. Pwysleisiodd yr angen am weithwyr cymdeithasol, bod rhai timau'n gweithio ar lefel gyda dros 50% o swyddi'n wag, a bod mwy o staff asiantaeth yn gweithio ar hyn o bryd na'r hyn y byddai'n hoffi ei weld. Amlygodd hefyd yr angen cynyddol i adolygu cyfraddau teithio CThEM, sef 45 ceiniog y filltir ar hyn o bryd, a bod Pen-y-bont yn talu cyfradd uwch o 47 ceiniog y filltir. Nododd y dylai'r safbwynt gyfleu bod pobl yn mynd i'r gwaith i ennill cyflog i dalu biliau a chyfrannu at gymdeithas.

Aeth y Dirprwy Arweinydd ymlaen i nodi bod pob Cyfarwyddiaeth yn colli aelodau staff i sefydliadau a oedd yn talu mwy. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn gwneud gwaith ar y mater hwn.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisïau Corfforaethol bod gwaith ar ben ffordd ar brosesau AD a chyfraddau swyddi gwag, ond pwysleisiodd fod yr anawsterau'n bresennol ym mhob rhan o'r Cyngor. Amlygodd bod y Cyngor yn ymchwilio i ddulliau a mentrau gwahanol i chwilio am staff a'u recriwtio. Nododd y gallai rannu gwybodaeth ag Aelodau am faterion recriwtio presennol, cyfraddau swyddi gwag a data ynghylch hysbysebion parhaus am swyddi gwag.

O ran y cyfleusterau parcio am ddim, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod y cynnig o 3 awr am ddim yn y Rhiw ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Stryd John ym Mhorthcawl wedi'u hymestyn, a bod yr incwm a gollwyd yn deillio o hyn rhwng £36,000 a £40,000 y mis. Roedd hyn yn dymhorol ac yn dibynnu ar adeg y flwyddyn,

felly, roedd y swm oddeutu £400,000 yn flynyddol. Fodd bynnag, roedd yr incwm yn deillio o bob maes parcio yn y fwrdeistref rhwng £1.3 a £1.4 miliwn. Roedd hyn yn sylweddol, yn enwedig gyda'r MTFS anodd a ragwelwyd. Bu iddi gloi drwy ddweud bod y gronfa caledi'n galluogi'r cynnig o gyfleuster parcio am ddim, gan wneud yn iawn am yr incwm a gollwyd oddeutu £400,000.

Trafododd Aelod baragraff 4.1.9 o'r adroddiad; bod yr MTFS yn cynnwys dyraniad pwysau cyllidebol gwerth £500,000 gyda £60,000 ar gyfer yr Hwb Diogelu Aml-asiantaethol (MASH)/Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) a diogelu. Amlygodd bod nifer y problemau diogelu wedi cynyddu'n sylweddol, a bod y tîm yn gweithio y tu hwnt i'w capasiti. Gofynnodd am eglurder ar ddigonolrwydd y dyraniad.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles bod y dyraniad gwerth £60,000 yn ymwneud ag adnoddau rheoli penodol ac adnoddau goruchwylio yn y gwasanaeth. Yn flaenorol, roedd un rheolwr tîm yn y gwasanaeth, ond bellach roedd dau reolwr. Eglurodd bod y pwysau yn ychwanegol i'r pwysau a oedd eisoes wedi'i gymeradwyo yn rhan o'r MTFS, ac wedi'i gymeradwyo yn rhan o bwysau cyllidebol mwy ar gyfer gofal cymdeithasol plant a oedd wedi cynnwys pedwar o weithwyr cymdeithasol ychwanegol.

Amlygodd bod MASH ac IAA wedi cael eu dylunio a'u sefydlu oddeutu 5 mlynedd nôl ar sail 200 o gysylltiadau â'r gwasanaeth mewn mis, ond bellach, roedd 600 o gysylltiadau. Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli drwy gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, i sicrhau capasiti digonol i ateb y galw mewn modd cynaliadwy, a chadw'r llwythi achos ar lefel resymol i'r gweithlu. Roedd rhaid ymgysylltu ag arbenigwyr cymorth allanol dros gyfnod yr haf ar achos busnes, ac roedd pwysau cyllidebol dangosol wedi'i gyflwyno ar gyfer y flwyddyn nesaf; byddai manylion ynghylch maint y pwysau cyllidebol hynny yn dod i'r amlwg drwy weithio ar yr achos busnes.

Awgrymodd Aelod y dylai pawb ddefnyddio'r rhifau tudalen ar y pecyn Agenda cyhoeddus, fel bod modd i'r cyhoedd ddilyn hefyd.

Gofynnodd Aelod a oedd y gyllideb wedi'i sefydlu ar sail y gweithlu presennol gyda nifer fawr o swyddi gwag, neu beth ddylai'r lefel gweithlu llawn fod?

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai'r gyllideb wedi cael ei gosod ar sail y Sefydliad, h.y., nifer y swyddi yn yr awdurdod. Roedd yr adroddiad yn amlygu tanwariant yn y gyllideb mewn rhai meysydd o ganlyniad i swyddi gwag, gan fod yr holl swyddi wedi'u costio'n llawn yn y gyllideb gwaelodlinol.

Dywedodd Aelod mai un o'r ffactorau pwysau mwyaf oedd chwyddiant, a oedd i fod i gyrraedd tua 10% erbyn diwedd y flwyddyn. Holodd am y disgwyliad y byddai'r Cyngor yn derbyn rhagor o geisiadau yn ystod y flwyddyn gan gontractwyr allanol, yn enwedig yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, a beth oedd y cynlluniau i leddfu hynny. Cyfeiriodd at achos lle roedd contractwr allanol wedi gwneud cais am gynnydd o ran ailwynebu'r briffordd, a holodd a fyddai'r Cyngor yn gallu cyflawni'r hyn yr oedd yn disgwyl ei gyflawni pe byddai rhagor o geisiadau ynghylch cynnydd mewn chwyddiant.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid eu bod nhw'n clywed gan gyflenwyr a darparwyr yn enwedig mewn perthynas â'r broblem chwyddiant, ac yn bennaf ynghylch costau tanwydd. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod hyn hefyd yn cael effaith ar y Rhaglen Gyfalaf. Nododd bod y ceisiadau'n cael eu datrys mor dda â phosibl ac wrth iddynt ddod i mewn. Er bod angen cadw mewn cof y pwysau ar gyflenwyr, byddai angen taro cydbwysedd rhwng naill ai gostyngiad yn y gwasanaeth oherwydd y costau ychwanegol, neu bwysau cyllidebol ychwanegol. Awgrymodd bod angen ystyried

pob achos yn unigol i sicrhau'r manteision gorau posibl o ran contractau, wrth gadw mewn cof y cyllid ac effeithlonrwydd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd bod y maes pryder yn cael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru, gan ei bod yn her yr oedd pob awdurdod lleol yn ei hwynebu ledled Cymru a'r DU. Nododd bod angen i Lywodraeth y DU adlewyrchu hynny mewn cyllid ychwanegol, yn ystod y flwyddyn, i Lywodraeth Cymru a ellid ei rannu ag awdurdodau lleol. Bu iddo gydnabod bod Llywodraeth Cymru yn helpu ble bo'n bosibl, ac amlygodd eu bod wedi cynyddu'r cyllid grant ar gyfer Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y 21ain Ganrif gan £12 miliwn. Roedd y cynnydd, yn rhannol, er mwyn adlewyrchu targedau uwch o ran yr agenda carbon sero net, ond hefyd yn adlewyrchiad o gostau adeiladu llawer uwch.

O ystyried y ffiniau tynn o fewn Cyfarwyddiaethau i gyflwyno rhai cynigion i leihau'r gyllideb, gofynnodd Aelod pa ystyriaeth yr oedd y Cabinet wedi'i rhoi i dynnu nôl rhai o'r gwasanaethau ar ddisgresiwn a ddarperir gan y Cyngor i gynnig gwasanaethau statudol yn unig, pe na fyddai unrhyw gyllid ychwanegol ar ei ffordd gan Lywodraeth y DU yn ystod y flwyddyn. Fel arall, a fyddai unrhyw gwmpas o fewn y gronfa wrth gefn gostwng y gyllideb MTFS i ysgwyddo ychydig o'r baich a fyddai'n deillio o bwysau chwyddiant, pwysau Brexit, etifeddiaeth Covid-19 a chostau eraill y cyfeiriwyd atynt i barhau â darpariaeth y gwasanaeth presennol.

Nododd yr Arweinydd bod yr holl wasanaethau disgresiynol yn bwysig iawn i'r gymuned ac yn lleihau pwysau ar wasanaethau statudol, gan arbed arian yn y tymor hir a'r tymor byr. Dywedodd mai'r enghraifft fwyaf a mwyaf amlwg oedd y gwasanaethau hamdden, gyda Phen-y-bont yn meddu ar y cynllun cyfeirio meddygon teulu mwyaf yng Nghymru, a oedd yn galluogi pobl i aros yn iachach ac yn fwy annibynnol am gyfnod hirach, gan arbed o ran anghenion gofal pobl. Felly, nid oedd eisiau gwneud y camgymeriad o leihau rhai gwasanaethau disgresiynol allweddol er mwyn cyflawni arbedion cyllidebol byrdymor, a fyddai'n costio i gymunedau. Byddai'n betrusgar o ran lleihau gwasanaethau nad oeddent yn cael eu hystyried yn statudol, ond roedd yn cydnabod nad oedd labelu gwasanaethau yn statudol yn syml yn dilyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a deddfwriaeth arall lle roedd gwasanaethau a fyddai yn y gorffennol wedi'u nodi yn rhai disgresiynol o bosibl yn helpu i gyflawni deddfwriaeth allweddol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid bod ychydig o arian yn y gronfa wrth gefn a all gael ei ddefnyddio i ysgwyddo rhai o'r pwysau. Fodd bynnag, dim ond unwaith y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn. Felly, os oedd y pwysau'n un untro a fyddai'n gwella dros amser, gellid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn pe byddai'r pwysau'n cael ei ymgorffori i'r gyllideb sylfaenol fel cost barhaus. Wedi hynny, byddai angen gwneud penderfyniadau o ran y lefel wasanaeth.

Nododd Aelod y byddai unrhyw beth yn llai na chynnydd cyflog o 10% i staff i bob pwrpas yn cynrychioli toriad cyflog o ystyried bod disgwyl i chwyddiant gynyddu gan 10% erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd yn awyddus i gael syniad o gynnydd o ran trafodaethau lleol gyda chydweithwyr undebau llafur a Llywodraeth Cymru.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn argymell na ddylid mynd yn erbyn y fframwaith bargeinio NJC, y sefyllfa negodi genedlaethol. Cytunodd fod angen codiad cyflog priodol ar staff, ond awgrymodd bod angen i hynny gael ei ariannu'n llwyr gan San Steffan, gyda chyllideb bwrpasol yn angenrheidiol i gael synergedd ledled gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nododd mai staff oedd yr adnodd mwyaf a'r peth mwyaf gwerthfawr, ac felly roedd angen eu gwerthfawrogi mewn modd priodol.

Ategodd yr Arweinydd ei gefnogaeth dros godiad cyflog i staff a oedd yn unol â chwyddiant. Fodd bynnag, gan fod cyflogau'n cael eu negodi ar lefel genedlaethol,

roedd angen i gynnydd mewn cyflog gael ei ariannu'n llawn gan y llywodraeth ganolog. Bu iddo gydnabod bod gweithwyr yn profi'r argyfwng costau byw, gan amlygu sut y byddai cynnydd cyflog cyffredinol yn helpu o ystyried yr anawsterau ynghylch recriwtio a chadw staff.

Gan gyfeirio at baragraff 4.2.5 a 4.2.7 o'r adroddiad, gofynnodd Aelod pa gynigion lleihau amgen oedd yn cael eu hystyried.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd bod dysgu i oedolion yn y gymuned yn agwedd ar ddarpariaeth gwasanaeth a oedd yn cael ei gwerthfawrogi'n sylweddol. Yn ddiweddar, roedd telerau ac amodau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio cyllid grant at ddibenion gweinyddol a rheoli wedi newid, ac wedi'i gapio ar 3%, a oedd yn golygu bod angen newid. Felly, roedd angen dull rhanbarthol. Cadarnhaodd eu bod nhw'n gweithio'n agos â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr, partner allweddol ym Mhen-y-bont a hefyd ledled ardal Consortiwm Canol y De, gan weithio'n agos â Rhondda Cynon Taf. Un peth a oedd yn cael ei ystyried oedd beth allai darparwyr eraill ei gynnig i wasanaethau oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnal yr un safon uchel a chynnal ymrwymiadau MTFS.

Nododd Aelod y gorwariant a ragwelir o £220,000 ynghylch cymorth i ddysgwyr ym mharagraff 4.3.1 o'r adroddiad, a cheisiodd eglurder ar y safbwynt bod hyn oherwydd dysgwyr yn aros am leoliadau yn Heronsbridge neu Ysgol Bryn Castell (YBC). Holodd a oedd hyn o ganlyniad i faterion capasiti, ac a fyddai hyn yn cael ei ddatrys ar ôl symud Heronsbridge.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd bod rhai grwpiau blwyddyn yn YBC yn llawn. Yn y ddwy flynedd olaf, nododd y newidiadau sylweddol i'r heriau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol a oedd rhai dysgwyr mewn ysgolion yn eu profi, a nododd pan fod angen darpariaeth bwrpasol neu wedi'i theilwra i'r dysgwyr hynny, doedd dim capasiti i gyflawni hynny mewn rhai meysydd yn YBC. Felly, roedd angen ymateb graddedig i gefnogi anghenion y dysgwyr hynny a darparu staff ychwanegol gyda'r sgiliau a'r profiad i gefnogi'r anghenion hynny. Yn y tymor byr, cadarnhaodd eu bod nhw'n gweithio gyda chorff llywodraethu YBC a'r Prif Seicolegydd Addysg i ystyried sut i ehangu capasiti yn YBC, ac y byddant hefyd yn edrych ar adolygiad annibynnol yn y flwyddyn ysgol newydd ar gapasiti, i sicrhau bod anghenion pob plentyn ledled yr awdurdod lleol yn cael eu bodloni mewn modd mor ddiogel ac effeithiol ag sy'n bosibl.

Cadarnhaodd mai un maes allweddol oedd i ysgol Heronsbridge ehangu'r ddarpariaeth, ac a fyddai'n bodloni rhai o'r anghenion i'r dyfodol. Nododd fod Pen-y-bont ar Ogwr yn lwcus o gael dwy ysgol arbennig ardderchog, ac roedd eisiau sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnal i bob dysgwr ar yr un lefel o effeithlonrwydd â nawr.

Nododd Aelod bod cyfarfod Cabinet diweddar wedi cymeradwyo Cerbydau Hacni'n cynyddu eu costau a, chan gyfeirio at gostau cynyddol tanwydd, holodd a oedd y gorwariant a ragwelir ar gyfer cludiant o'r cartref i ysgolion yn realistig, ac a allai'r cynnydd i gostau Cerbydau Hacni osod cynsail i gwmnïau tacsis yn galw am brisiau uwch ar gyfer contractau.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd ei fod yn faes yn llawn heriau digynsail, a oedd wedi bod yn bwnc llosg mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Pwysleisiodd y cynnydd o 33% fesul litr o danwydd dros y chwe mis diwethaf, a oedd wedi bod yn heriol iawn i rai darparwyr cludiant. Bu iddo gydnabod y ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant o gartrefi i ysgolion i ddysgwyr cymwys, gan gydnabod hefyd y darparwyr cludiant da ym Mhen-y-bont a oedd yn gweithio'n agos gyda nhw i gynnal y gwasanaeth, er gwaetha'r ffaith ei fod yn heriol iddyn nhw.

Rhoddodd wybod bod yr ymarfer tendr diweddar wedi nodi bod costau yn y maes wedi cynyddu, a’r angen am bwysau yn y maes, ac oherwydd anweddolrwydd, roedd creu rhagolygon yn heriol. Fodd bynnag, o ran y contractau, roeddent wedi ceisio ymgorffori’r costau dros y tymor hirach i sicrhau bod yr anweddolrwydd wedi’i leihau cyn belled ag sy’n bosibl i’r Cyngor.

Gan gyfeirio at baragraff 4.3.1 o’r adroddiad ar gyllidebau dirprwyedig ysgolion, gofynnodd Aelod beth oedd cyfanswm diffyg y pum ysgol gynradd a’r ysgol uwchradd, a pha gymorth canolog yn yr awdurdod lleol oedd ar gael i sicrhau sefyllfa wedi’i balansu iddynt. Yn ogystal, holodd a oedd cyllid grant oedd wedi’i ddarparu gan y llywodraeth ganolog, gan arwain at nifer o ysgolion yn bod ag arian yn weddill, yn cuddio’r heriau yr oedd rhai ysgolion yn eu hwynebu. Gofynnodd hefyd a fyddai’r awdurdod lleol yn awyddus i adennill peth o’r cyllid hwnnw, neu ganiatáu i’r ysgolion ei gadw a pharhau mewn sefyllfa ag arian yn weddill.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Addysg na fyddai’r cyllid yn cael ei adennill, cyn belled â bod gan yr ysgol gynllun ariannol ar gyfer yr arian gweddilliol, y byddai’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn mynd trwyddo gyda’r ysgolion.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd unrhyw fwriad i adennill cyllid sy’n weddill gan ysgolion. Cadarnhaodd bod cynllun ariannol, ac y byddai angen dilyn dogfen statudol. Cadarnhaodd bod ei dîm yn mynd trwy’r broses ffurfiol o ddadansoddi sefyllfaoedd cyllidebol pob ysgol, ac amlygodd pa mor bwysig oedd gwneud hynny i fanteisio i’r eithaf ar gyllidebau ysgolion o ran anghenion dysgwyr.

Canodd glod Cadeiryddion Llywodraethwyr, Cyrff Llywodraethu a phenaethiaid am eu hymdrechion rhagorol dros y ddwy flynedd heriol ddiwethaf. Er ei fod yn ddiolchgar am y grantiau ychwanegol a oedd wedi dod i law, roedd y rhain wedi arwain at broblemau hefyd. Er bod safle cyllidebol iach, roeddent yn gweithio ag ysgolion i sicrhau bod yr arian gweddilliol yn cael ei wario er budd pob dysgwr.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd bod pum ysgol yn cynrychioli cyllideb ddiffygiol, ac er nad oedd ganddo gyfanswm y gyllideb ddiffygiol a ragwelir ar gyfer ysgolion ar hyn o bryd, cytunodd i rannu hyn ar ôl y cyfarfod.

Fodd bynnag, roedd hi’n bwysig gweithio’n agos â Swyddogion Cyllid Ysgolion ar reoli swyddi gwag, a sicrhau lle bo’n bosibl, bod cyllidebau ysgolion yn cael eu rheoli, a grantiau’n cael eu huchafu i gefnogi ysgolion yn effeithiol ar y cyd â’r Fforwm Cyllidebau Ysgolion.

Gan gyfeirio at baragraff 4.3.2 o’r adroddiad ar ddarpariaeth gofal preswyl y tu allan i’r sir, nododd Aelod y gyllideb uchel a bod nifer y lleoliadau wedi cynyddu o 13 i 16. Gofynnodd beth oedd ar waith i ddod â nifer y lleoliadau y tu allan i’r sir i lawr i ddim mwy nag 13. Gofynnodd hefyd a oedd y cynnydd o ganlyniad i broblemau staffio.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles bod y gyllideb breswyl y tu allan i’r sir yn newidiol iawn ac yn dibynnu ar alw. Roedd pob plentyn yn cael ei asesu, a’i gynllun gofal yn cael ei bennu ar sail ei anghenion unigol. Byddai rhai cynlluniau gofal yn nodi bod angen lleoliad y tu allan i’r sir gan fod hynny orau i’r plentyn, gyda rhai lleoliadau y tu allan i’r sir yn cynnwys y plentyn yn byw gyda theulu, pobl berthnasol neu ofalwyr maeth, neu mewn darpariaeth breswyl arbenigol nad yw ar gael yn y fwrdeistref sirol.

Felly, er bod newid o dri i weld yn bryderus, roedd y gyllideb o fewn yr hyn ellid ei ddisgwyl mewn cyllideb ar sail anghenion plant a phobl ifanc, a chadarnhaodd bod gwaith yn cael ei wneud yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yng Nghymru i ddatblygu addasrwydd y ddarpariaeth. Amlygodd bod llawer o blant a oedd yn byw y tu allan i'r ardal yn byw mewn awdurdodau cyfagos neu yn ne Cymru, a bod yr awdurdod yn gwneud pob ymdrech i geisio cadw'r plant mor gysylltiedig â phosibl â'r ardal leol drwy ysgolion a'r cysylltiad â theuluoedd, a hefyd yn ceisio eu dychwelyd yn ddiogel i'r ardal pan fo angen.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles er y byddai gwaith yn parhau i geisio lleihau nifer y plant wedi'u lleoli y tu allan i'r sir, byddai'r lleoliadau hynny ar gael bob tro pe byddai er budd y plentyn i drefnu lleoliad o'r fath.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd y byddai rhai lleoliadau dan orchmynion Llys gyda'r awdurdod lleol yn methu â chael dylanwad ar ble fyddai plentyn yn cael ei leoli. Hefyd, roedd yn awyddus i nodi bod yr unig uned ddiogel yng Nghymru, Hillside, mewn awdurdod cyfagos a'i fod yn lleoliad hynod o ddrud.

Nododd a chroesawodd Aelod y gorwariant a ragwelir o £185,000 ar offer ac addasiadau, gan ei fod o'r farn y byddai hyn yn arwain at ychydig o lwyddiant pan fyddai pobl yn cael eu rhyddhau o ysbytai i'w cartrefi, a oedd yn addas at y galw, a ble gallent fyw'n fwy annibynnol. Er iddo nodi ei fod yn fodel 'buddsoddi i arbed', holodd pa gyfraniad oedd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud at y gwasanaeth, ac os nad oeddent, a ddylent gyfrannu?

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles bod yr arian Pwysau'r Gaeaf gan Lywodraeth Cymru a ddaeth drwy'r Bwrdd Iechyd yn berthnasol i'r pwysau cyllidebol hwn. Fodd bynnag, amlygodd weithio partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd i fuddsoddi i feysydd fel hyn sy'n cefnogi rhyddhau o'r ysbyty. Roedd hi'n hyderus y byddant y gweld buddsoddiad drwy'r llwybr hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn. O ran buddsoddiad cynaliadwy a pharhaus, nododd nad oedd buddsoddiad gan y Bwrdd Iechyd i'r maes yn cael ei ystyried yn rhan o'r gyllideb ailadroddus, ond roedd y gobeithio am symudiad at gyllidebau mwy integredig i fodloni anghenion pobl ag anghenion iechyd a gofal ar adeg cyflwyno.

O ran yr arbedion ynghylch goleuadau stryd, gofynnodd Aelod a oedd pob golau stryd ym mherchnogaeth y Cyngor wedi newid i ddefnyddio bwlb golau ynni-effeithlon ac os na, holodd a ellid defnyddio ychydig o'r arbedion i newid yr holl oleuadau, gan uchafu'r arbedion. Hefyd, o ran y goleuadau oedd heb eu mabwysiadu, gofynnodd a fyddai unrhyw bwysau'n deillio o wella safonau yn barod ar gyfer mabwysiadu, neu a fyddai angen disodli'r goleuadau hynny ar ôl mabwysiadu?

Eglurodd yr Aelod Cabinet Cymunedau bod y tanwariant a ragwelir ar oleuadau stryd yn rhan o'r darlun cyfan a gwneud yn iawn am orwariant. O ran datblygiadau newydd, roedd yn deall eu bod yn gosod goleuadau LED newydd yn unol â'r fanyleb a ddarparwyd iddynt gan yr awdurdod.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod yr holl oleuadau stryd newydd yn rhai addas i LED. Cadarnhaodd hefyd bylbiau newydd wedi'u gosod yn oddeutu 90% o 16,000 o oleuadau stryd y fwrdeistref. Fodd bynnag, nododd ei bod hi'n poeni gan fod y cynllun i newid y bylbiau wedi'i roi ar waith gan ddefnyddio benthyciad, a fyddai angen ei ad-dalu o'r arbedion. Er bod buddsoddi i arbed wedi bod yn ddefnyddiol, roedd y chwyddiant o ran pris ynni yn golygu mai prin iawn fyddai'r arbedion i'r dyfodol.

Roedd yr Aelod yn deall bod rhai datblygiadau'n eithaf hen, ac efallai nad oeddent wedi derbyn y manylebau presennol. Er enghraifft, roedd Persimmon Homes wedi rhoi gwybod iddi eu bod nhw'n defnyddio bylbiau gwahanol i'r awdurdod lleol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod yr holl oleuadau stryd a fabwysiadwyd ym mherchnogaeth y Cyngor wedi'u cynnwys yn y rhaglen.

O ran y tanwariant a ragwelir o £175,000 yn y Gwasanaethau Priffyrdd, nododd a deallodd Aelod ei fod yn bennaf oherwydd bod staff yn gweithio ar gynlluniau cyfalaf, ond holodd am statws y cynlluniau hyn, ac os oedd am fod yn flaenoriaeth barhaus, a oedd pryder am swyddi beunyddiol o fewn y gwasanaeth?

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod y tanwariant yn deillio o gynhyrchu incwm drwy godi tâl ar Lywodraeth Cymru am amser yn gweithio ar gynlluniau grant megis y Cynllun Teithio Llesol, dylunio Pont Penprysg a'r Cynllun 20mya.

Gyda phryder, nododd Aelod y gorwariant a ragwelir o £265,000 yn y Gwasanaethau Fflyd oherwydd lefelau cynhyrchiant is, a holodd sut roedd hyn yn cael ei leddfu.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei fod yn ddarlun sy'n peri pryder, ond bod model gwasanaethau fflyd ar y cyd rhwng y Cyngor a Heddlu De Cymru yn Nhŷ Thomas. Rhoddodd wybod am ychydig o broblemau gyda'r drefn godi tâl, gan fod cryn dipyn o salwch yn y maes gwasanaeth a oedd wedi arwain at ostyngiad yn y gwaith y gellir codi tâl ar ei gyfer; dyna'r rheswm dros y gorwariant a ragwelir. Fodd bynnag, nododd bod problem fwy sylfaenol, hynny yw bod yr Heddlu a staff y Cyngor yn cael eu hyfforddi i weithio ar gerbydau ei gilydd, ond bod yr Heddlu'n bwriadu ail-raddio eu swyddogion a'u rhoi ar raddfa llawer uwch. Er y byddai bob aelod staff yn cael hyfforddiant i weithio ar lawer o gerbydau gwahanol, gan gynnwys trydan a hydrogen, byddai anghysondeb o ran graddio. Cadarnhaodd mai dyma'r ail flwyddyn gyda gorwariant a ragwelir o ganlyniad i beidio â sicrhau digon o incwm i dalu costau'r gwasanaeth. Byddai adolygiad yn cael ei gynnal ar sut roedd y gwasanaeth yn gweithio, ac roedd y gwasanaeth yn cael ei ariannu gyda Heddlu De Cymru. Cadarnhaodd ei bod hi'n fodlon dod â'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Craffu at ddibenion monitro.

Nododd Aelod bod digartrefedd yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol ac yn risg gorfforaethol i'r Cyngor. Gofynnodd a oedd y tanwariant yn cuddio'r pwysau yn y gwasanaeth.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid bod peth arian wedi dod i law drwy'r gronfa galedi i helpu gyda chostau parhaus yn y flwyddyn. Cytunodd er bod tanwariant wedi'i gofnodi, roedd pwysau yn y gyllideb, megis costau llety dros dro. Cytunodd fod pwysau cyllidebol a phwysau gwasanaeth sylweddol wedi'u rhagweld yn y gyllideb honno.

Gan gyfeirio at Atodiad 2, gofynnodd Aelod a oedd yr ieithwedd a ddefnyddiwyd yn gyson ar draws pob Cyfarwyddiaeth. Nododd bod cyfeiriad ym maes Cymunedau at 'dylid ei gyflawni' a oedd wedi'i nodi'n wyrdd mewn rhai meysydd a 'cyflawnwyd'. Holodd a oedd statws a ragwelwyd.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid ei fod yn ymwneud â'r statws a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn, ond cytunodd y gall y naratif fod yn fwy eglur er mwyn bod yn glir o ran beth oedd wedi'i gyflawni, a beth oedd i'w gyflawni yn ystod gweddill y flwyddyn.

O ran Atodiad 3, gofynnodd Aelod beth oedd wedi'i gynnwys yn y tanwariant gwerth £1.634 miliwn yn y Cyllidebau Ar Draws y Cyngor.

Nododd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid ei fod yn cynnwys llawer o bethau, ond amlygodd y Cynllun Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor, ac y gellid gwneud llawer o waith i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael.

Amlygodd Aelod effaith sefyllfa newidiol prisiau tanwydd ar wasanaethau, darparwyr a chyllideb y Cyngor, ac argymhellodd y dylid cadw hyn mewn cof wrth graffu ar adroddiadau cysylltiedig.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau Cabinet, Argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

1. Amlygodd y Pwyllgor effaith sefyllfa newidiol prisiau tanwydd ar wasanaethau, darparwyr a chyllideb y Cyngor, ac argymhellodd bod angen cadw hyn mewn cof i'r dyfodol wrth graffu adroddiadau perthnasol.

a gofynnodd y Pwyllgor am:

2. Wybodaeth ynghylch materion recriwtio presennol, cyfraddau swyddi gwag a data ynghylch hysbysebu swyddi dro ar ôl tro.

3. Cyfanswm cyllideb ddiffygiol ysgolion a ragwelir ar gyfer 2022-2023.

13. <u>PERFFORMIAD Y CYNGOR YN ERBYN EI YMRWYMIADAU AR GYFER Y FLWYDDYN 2021-22</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o berfformiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2021-22, a chymharodd y perfformiad yn erbyn yr ymrwymiadau a roddwyd ar waith i gyflawni'r amcanion lles yn y Cynllun Corfforaethol 2018-23, a adolygwyd ar gyfer 2021-22.

Roedd Aelod yn pryderu am y pethau nad oedd y fframwaith yn eu mesur, ac amlygodd mai prin iawn oedd y mesurau a nodwyd ynghylch ymateb y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd. Roedd hefyd yn pryderu nad oedd yr adroddiad yn darparu digon o fanylion ynghylch swyddi gwag, nac ymatebion staff i'r arolwg ymgysylltiad. Roedd hefyd yn poeni nad oedd yr adroddiad yn mesur boddhad ymysg preswylwyr o ran gwasanaethau a ddarparwyd gan y Cyngor. Yn ei farn ef, roedd 39 o feysydd a oedd angen eu trafod, ond oherwydd prinder amser, cynigiodd eu cyflwyno'n ysgrifenedig. Fodd bynnag, gofynnodd beth all gael ei wneud i adlewyrchu barn preswylwyr yn y dangosyddion perfformiad.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Monitro bod yr adroddiad yn mesur perfformiad yn erbyn Cynllun Corfforaethol y flwyddyn flaenorol, a bod rhai materion a godwyd wedi dod yn fwy pwysig i breswylwyr ers hynny, a fyddai'n cael mwy o flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol a oedd yn cael ei ddrafftio. Cadarnhaodd sut roedd perfformiad yn cael ei fesur, a bod hynny'n cael ei adolygu i ystyried materion ehangach. Roedd hunan-asesu ar y gweill a fyddai'n amodol ar ymgysylltiad gan Aelodau a phobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Amlygodd hefyd bod problemau ariannol a'r gweithlu yn effeithio ar berfformiad y Cyngor, a'i bod yn gobeithio dod â'r holl ffrydiau at ei gilydd i roi trosolwg i Aelodau o bopeth oedd yn effeithio ar berfformiad.

Anogodd yr Aelod Swyddogion i ystyried argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer ymrwymiadau a dangosyddion perfformiad i'r dyfodol.

Nododd y Cadeirydd bod deddfwriaeth newydd a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar alw am y gwasanaeth, a'i bod hi'n hanfodol cael cyllid gan y llywodraeth ganolog i'r perwyl hwnnw. Gofynnodd i'r Weithrediaeth beth oedd y blaenoriaethau mwyaf ar hyn o bryd, a pha feysydd y dylid paratoi ar gyfer dioddef pe na fyddai unrhyw gyllid ar y gweill.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd nad oedd ganddi unrhyw fwriad i unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth ddioddef, ac y byddai'n parhau i lobio dros gyllid teg. Pwysleisiodd bod darpariaeth anstatudol yn arbed arian yn y tymor hir, ac er nad oedd y sefyllfa gyllid yn hysbys, nododd bod toriadau pellach yn annerbyniol i breswylwyr a'r gweithlu.

O ran canran (19.2%) y bobl sy'n cyflwyno'n ddigartref neu o bosibl yn ddigartref, y mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd gyfreithiol derfynol i sicrhau llety addas ar eu cyfer, gofynnodd Aelod beth oedd y canran yn ei gynrychioli o ran nifer y bobl. Hefyd, nododd ganran yr aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref, a bod hwnnw'n 30.5%. Gofynnodd beth oedd y rheswm dros hyn, gan fod y targed yn 60%.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau, yn ystod y pandemig, roedd canllawiau LIC ar ddigartrefedd wedi newid. Cyn Covid-19, disgwyliwyd i'r dangosydd DOPS39 fod mor isel â phosibl, oherwydd y gobaith oedd y byddai'n atal pobl rhag bod angen ymyrraeth statudol. O ran y dangosydd PAN012 a oedd yn 67% ar gyfer 2020-21, cadarnhaodd bod hynny wedi'i leddfu drwy ddulliau amgen, megis cymorth gyda bondiau a throsoliad yn y sector rhentu preifat.

Pan newidiodd y canllawiau i nodi unrhyw un a oedd yn cyflwyno'n ddigartref, roedd dyletswydd statudol i roi gofal, a oedd yn golygu bod y gyllideb llety dros dro wedi symud o £78,000 i £2.7 miliwn. Bu iddo gydnabod na fyddant yn gallu cefnogi'r rhai sy'n cysgu ar y stryd a dinasyddion sydd angen y gwasanaeth heb gefnogaeth sefydliadau megis The Wallich a Pobl.

Cadarnhaodd bod 218 o aelwydydd yn byw mewn llety dros dro, sef 386 o bobl, ac roedd 137 o'r rheiny yn blant. Bu iddo gydnabod nad oedd y dangosyddion cenedlaethol, PAM012 a DOPS39, yn cyfleu'r darlun cyfan, ond yn amlinellu'r pwysau ym maes tai. Cadarnhaodd ei fod wedi cyrraedd ei uchafswm capasiti ac mai'r her fwyaf oedd unedau preswyl i gefnogi pobl i symud oddi wrth lety dros dro. Dywedodd y byddai'n well ganddo i PAM012 ddangos yn wyrdd a'r DOPS39 i fod yn is na'r targed i leddfu'r angen am ymyrraeth statudol, a darpariaeth llety.

Gofynnodd yr Aelod pa waith oedd yn mynd rhagddo i gefnogi plant yn gadael gofal yn 18 oed i symud yn rhwydd i lety arall, yn hytrach na gorfod cyflwyno'n ddigartref, a nododd hefyd nad oedd yr oedolion hynny wedi'u cynnwys yn y ffigurau.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wybod bod gwaith pellach i'w wneud rhwng Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ac roedd yn cydnabod fod methiannau yn y system o ran pobl ifanc yn gorfod cyflwyno'n ddigartref. Roedd darn cychwynnol o waith, gyda chefnogaeth ymgynghoriaeth, wedi rhoi syniad o'r hyn yr oedd angen ei wneud a bod angen camau gweithredu mwy ar gyfrifoldebau rhianta corfforaethol, ac a ellid rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n gadael gofal mewn systemau dyrannu.

Gyda phryder, nododd Aelod yr amseroedd aros uchel am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). Ceisiodd eglurder ar a oedd y naratif ar gyfer dangosydd PAM/015

(PSR002), gan holi a oedd yn cynnwys pawb, ac a fyddai modd cynnwys diffiniad o'r categori er mwyn cynorthwyo o ran ystyriaeth ffigurau i'r dyfodol. Gofynnodd hefyd am y cynnydd o ran symud i wasanaeth mewnol. Gofynnodd hefyd a ddylai'r gwasanaeth barhau i fod yn rhan o Gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, neu a oedd rheswm dros ei symud i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau bod PAM/015 yn ddangosydd Cymraeg a oedd yn cynnwys pawb, a derbyniodd nad oedd y ffigurau yn ddigon da. Roedd yn hapus i ddarparu rhagor o eglurder am y dangosydd.

O ran y symudiad at wasanaeth mewnol, cadarnhaodd fod y model asiantau wedi dod i ben 1 Ebrill 2021, a oedd yn golygu nad oedd asiantaethau allanol yn cael cyfle i ymgymryd â DFGau, gan eu bod wedi'u mewnoli. Fodd bynnag, roedd hyn yn achosi croniad o ran gwaith. Rhagwelwyd y byddai'n cymryd 2 flynedd i leihau'r croniad hwn yn y broses newydd. Roedd mewnoli'n golygu cael rheolaeth lwyr o'r atgyfeiriad gan y gwasanaethau cymdeithasol i asesiadau syrfewyr a gweithredu contractwyr. Roeddent wedi cynnal ymgysylltiad â'r contractwyr cyn mynd i'r farchnad, a gweithio gyda chydweithwyr caffael a chyfreithiol. Drwy hyn, roeddent wedi pennu fframwaith a oedd yn aros am gymeradwyaeth gyfreithiol. Roedd yn rhagweld y byddai'n mynd i dendr i gontractwyr ar ddechrau mis Medi, a chadarnhaodd ei fod yn fframwaith oddeutu £8 miliwn dros 4 blynedd.

Cadarnhaodd bod cydweithio da gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, gan nad oeddent yn gallu gwneud unrhyw waith gyda'r DFG ei hun heb atgyfeiriad swyddogol gan y gwasanaethau cymdeithasol, wedi iddynt bennu'r anghenion.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles sicrwydd i Aelodau, er bod anawsterau o ran amseroedd aros am OT yn flaenorol, roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i gyflawni'n agos at amser go iawn o ran ymdrin ag atgyfeiriadau. Roedd yr amser aros hirach ar hyn o bryd o 12 Mehefin 2022, a oedd yn waeth nag y byddai fel arfer oherwydd rhai achosion salwch, ond roedd yn rhagweld y byddai'n gwella eto pan fydd pob aelod staff yn gweithio.

O ran eiddo gwag a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, nododd Aelod ei fod wedi bod yn ymrwymiad allweddol ers tro, ond bod dim data perfformiad ar gael ar gyfer 2021-22. Holodd beth oedd y camau nesaf, pryd y byddai'r data perfformiad ar gael, a beth arall oedd yn digwydd i ganiatáu targedau mwy uchelgeisiol a chyflawnadwy yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau eu bod wedi gweithio ar y cyd â'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar y Strategaeth Eiddo Tai Gwag gyda Swyddog yn canolbwyntio ar yr eiddo gwag. Yn y Strategaeth, y ffocws allweddol yw'r 20 o eiddo gwag sy'n achosi'r anawsterau mwyaf sylweddol yn y gymuned. Cadarnhaodd bod oddeutu 150 o achosion parhaus, ac mai nod y Strategaeth oedd gweithio gyda pherchnogion eiddo gwag mewn proses pum cam positif. Pe na fyddai unrhyw symudiad positif, gellid cymryd camau gweithredu statudol er bod hynny'n broses hir a fyddai'n golygu amser a buddsoddiad.

Cadarnhaodd bod y naratif yn archwilio'r hyn a olygir o ran dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, a thrafododd y broses o aneddiadau sengl yn cael eu trosi i greu annedd ychwanegol. Cadarnhaodd mai'r uchelgais oedd cefnogi perchnogion eiddo gwag o ran dod â'u heiddo nôl i ddefnydd, gobeithio ar gyfer tai cymdeithasol neu'r sector rhentu preifat lle byddai modd cyfeirio pobl atynt a'u symud.

Gofynnodd yr Aelod pa mor hir yr oedd perchnogion eiddo gwag yn cael i geisio dod â'r eiddo nôl i ddefnydd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau y gallai ymgysylltu â Swyddog o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i ddarparu ymateb ysgrifenedig o ran y broses hirfaith o ysgogi perchnogion eiddo i ddod ag eiddo gwag nôl i ddefnydd, gan gynnwys enghreifftiau achos go iawn ac amserlenni. Fodd bynnag, cadarnhaodd mai prin iawn oedd y Gorchmynion Gorfodol, ac mai'r dewis dymunol oedd gweithio gyda pherchnogion eiddo.

O ran eiddo gwag, gofynnodd Aelod a fyddai'n bosibl ystyried nid yn unig tai ond eiddo mawr gwag, ac a fyddai modd gweithio ar eiddo mawr gwag yn y dref, neu a oedd angen iddynt barhau'n eiddo masnachol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau bod y Strategaeth Eiddo Gwag yn canolbwyntio ar eiddo preswyl, ond eu bod nhw'n gweithio gyda Chymunedau i ddefnyddio'r gofod uwchben eiddo masnachol at ddibenion preswyl, yn hytrach na throsi unedau masnachol yn uniongyrchol.

Rhoddodd yr Arweinydd ddwy enghraifft o eiddo masnachol yn dod nôl i ddefnydd; y siop Family Value yng nghanol tref Maesteg, lle defnyddiwyd cyllid LIC er mwyn dod ag ef yn ôl i ddefnydd ac adeilad ar Stryd Nolton, ym meddiant La Cocina, a oedd wedi'i ymestyn ar y llawr daear, a'r ail a'r trydydd llawr wedi'u hailddatblygu at ddibenion preswyl. Roedd hyn yn golygu bod modd cynnal hyfywdra a nifer y bobl oedd yn ymweld â'r uned fasnachol ar y llawr daear, a defnyddio'r uchod at ddibenion preswyl. Roedd Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr yn dal i geisio cyfleoedd pellach, a'r tîm Tai ac adfywio ym maes Cymunedau.

Nododd yr Aelod bod yr Awdurdod yn rhoi preswylwyr mewn llety gwesty dros dro, a holodd pa bwysau oedd yn cael ei roi ar sefydliadau megis Valleys to Coast a oedd, yn ôl yr hyn yr oedd hi'n ei ddeall, yn berchen ar dros 100 o eiddo oedd angen gwaith a all gael ei ddefnyddio fel tai, pe byddai'n cyrraedd y safon ofynnol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau mai'r ffocws yn yr adroddiad oedd y sector landlordiaid preifat, a bod fforwm ble gallent gwrdd â'r awdurdod i drafod ystod eang o faterion a phroblemau. Cadarnhaodd bod gan Valleys to Coast broblem yn ymwneud â diffyg, ond bod yr Awdurdod wedi bod yn ymgysylltu â nhw i ddod â 35 eiddo nôl i ddefnydd. Cadarnhaodd bod 218 o aneddiadau mewn llety dros dro, a oedd yn costio oddeutu £2.7 miliwn y flwyddyn i'r Awdurdod.

O ran yr amser yr oedd yn ei gymryd i gyflwyno Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) i Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc, gofynnodd yr Aelod am eglurhad o ran pam roedd y targedau mor uchel, a pham ei bod hi'n cymryd cyhyd i gyflwyno grantiau.

Cytunodd y Pennaeth Partneriaethau bod y targedau'n uchel, a'i fod yn gobeithio cyflawni mewn 200-210 diwrnod. Cadarnhaodd fod addasiadau wedi'u hatal oherwydd Covid-19, a bod llawer o'r gwaith mewn ciw a'r cloc yn tician, gyda nifer o waith cymhleth yn dod nôl i gyfrifoldeb yr Awdurdod wedi dirwyn y model asiantaethau i ben. Roedd Covid-19 a Brexit wedi cael effaith ar yr ystadegau, ac er bod DFGau bellach yn cael eu cymeradwyo, roedd hi'n rhy gynnar i adrodd y ffigurau hynny. O ran ffigurau plant, rhoddodd wybod bod gwaith yn mynd rhagddo gydag Ysbyty Tywysoges Cymru a Therapyddion Galwedigaethol o ran gosod disgwyliadau ac ymgysylltu'n fuan.

Gyda phryder, nododd Aelod bod y Dangosydd Perfformiad CED28 wedi'i nodi'n goch ar gyfer nifer y rhai wnaeth lenwi'r arolwg. Holodd a oedd unrhyw syniad pa mor hapus oedd y gweithle, a pham nad oeddent yn cymryd rhan yn yr arolwg?

Nododd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol bod llawer o'r staff wedi diflasu ar lenwi arolygon. Trafododd hefyd yr anawsterau ac ymarferoldeb o ran rhannu'r arolwg â staff a hwythau'n gweithio gartref, ac er ei fod ar gael yn electronig, roedd hi'n golygu rhagor o ymdrech i ddychwelyd fersiynau ar bapur a oedd yn arwain at leihad yn y niferoedd. Cadarnhaodd bod ymchwil ar ffyrdd amgen o ymgysylltu â staff mewn ffyrdd mwy ystyrlon yn mynd rhagddo.

Nododd Aelod fod costau'n cynyddu, ac roedd yn gobeithio bod digon o gyfalaf yn y gyllideb ac ystyriaeth o hynny wrth gyfrifo costau DFGau, fel na fyddai oedi o ran y gwaith a ddarperir, a phobl yn aros am gyfnod hirach am eu grantiau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau bod y gyllideb DFG ychydig o dan £2 filiwn, ond bod rhai wedi cael eu defnyddio wrth ail-alluogi o'r ysbyty i gartref. Bu iddo gydnabod bod costau deunyddiau crai yn codi, a chadarnhaodd er bod cap £36,000, roedd y DFG cyfartalog rhwng £7,500 a £12,500, ac felly nid oedd yn poeni am y sefyllfa ariannol. Fodd bynnag, gwnaeth hefyd gydnabod yr angen i fireinio'r broses o ran gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol ar anghenion preswylwyr, er mwyn cyflawni'r DFGau.

Nododd yr Aelod bod yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill a DFGau, a gofynnodd a fyddai modd sicrhau bod unrhyw adborth ar y gwaith ar gael.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau fod Castell-nedd Port Talbot wedi rhoi cefnogaeth i alluogi parhad gwasanaethau drwy gyflenwi adnoddau arolygu a chymorth ar fewnoli'r gwasanaeth. Byddai hyn yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn. Roedd ymgyrch recriwtio mewnol ar waith, yn ogystal â gwaith gyda landlord corfforaethol i benodi prentis a chymorth gan y sector preifat.

Nododd Aelod y lefel uchel o salwch ac absenoldeb oherwydd MSD a straen, gorbryder ac iselder, nad oedd yn ymwneud â'r gwaith, ar draws yr Awdurdod, a holodd pa gefnogaeth ac atgyfeirio oedd ar gael i sicrhau dychweliad i'r gwaith cyn gynted â phosibl.

Dywedodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol bod Care First, y gwasanaeth cwnsela a gomisiynodd, ar gael i staff gael mynediad iddo heb gynnwys eu rheolwr llinell, a bod gwasanaeth cwnsela mwy pwrpasol gan gwnselwyr profiadol ar gael ar gyfer materion penodol. Pe byddai staff ar absenoldeb salwch, gellid atgyfeirio i iechyd galwedigaethol. Hefyd, roedd Swyddog Lles wedi'i benodi a fyddai'n cynnal mentrau lles ar gyfer staff a rheolwyr.

Nododd Aelod bod nifer o dargedau perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn isel oherwydd problemau recriwtio, a holodd beth oedd ar waith i wella prosesau recriwtio.

Bu i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gydnabod bod heriau sylweddol parhaus mewn rhai mannau allweddol yn y gweithlu. O ran gweithwyr gofal a chymorth ym maes gofal yn y cartref, cadarnhaodd bod llawer o ddigwyddiadau recriwtio a marchnata ar waith, a oedd wedi arwain at rai gwelliannau graddedig. Er hyn, nid oedd y targed o 22 o swyddi ychwanegol wedi'i bodloni. Roeddent wedi adolygu'r disgrifiad swydd i adlewyrchu gweithwyr dyletswydd gofal, sef y cam cyntaf yn y Polisi Ychwanegiadau'r Farchnad, pe na fyddai unrhyw welliant. Bu iddi gydnabod y pwysau o ran nifer yr oriau o ofal a oedd yn cael eu darparu, ac roedd hyn yn golygu bod angen i staff weithio shifftiau dwbl. Nid oedd hyn yn ddeniadol ac felly byddai'r rotas yn cael eu hadolygu. Roedd hefyd gwaith corfforaethol ar ben ffordd o ran costau tanwydd ac ystyriaeth i gerbydau trydan a fflyd.

Y maes arall gyda heriau sylweddol oedd gweithwyr cymdeithasol plant, gyda'r tîm IAA a diogelu ardaloedd lleol yn profi heriau penodol. Ar ôl ymgymryd ag adolygiad o ddisgrifiad swyddi a arweiniodd at raddfa uwch ar gyfer y gweithwyr cymdeithasol mwyaf profiadol ym maes oedolion a gofal cymdeithasol, cyflwynwyd cais ychwanegiadau'r farchnad llwyddiannus. Roeddent hefyd yn gwneud gwaith ar siarter y gweithlu, gan fynd i'r afael â chyfleoedd i weithwyr, cyfleoedd i ddatblygu gyrfaoedd a lleihau llwythi achosion. Fodd bynnag, roedd dal llawer o swyddi gwag ac felly, gwnaethpwyd penderfyniad strategol i ddefnyddio gweithlu asiantaeth i sicrhau parhad ac ansawdd gwasanaeth, a chynnydd o ran recriwtio'n rhyngwladol. Yn y tymor hirach, byddai nifer fwy o bobl ar secondiad ar y cwrs gwaith cymdeithasol ac o fis Medi ymlaen, byddai hyfforddeion gwaith cymdeithasol a phobl ar secondiad ar y cwrs. Gan gydnabod fod hyn yn her ar draws y DU, amlygodd bod arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru wedi dod i'r casgliad bod 93% o weithwyr ym maes gofal cymdeithasol plant yn teimlo fel eu bod yn cael cefnogaeth wrth eu gwaith, a gofynnodd i Aelodau hyrwyddo hynny.

Nododd yr Aelod y lefel uchel o absenoldebau salwch yn y ddau chwarter diwethaf, a gofynnodd a fu unrhyw welliant yn lefel yr absenoldebau salwch.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gydnabod y broblem sylweddol o ran salwch, yn enwedig ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref. Rhoddodd wybod bod y gweithlu wedi blino'n lân, ac amlygodd y pwysau yr oeddent yn eu hwynebu yn darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb drwy gydol y pandemig, ac yn ystod y gwres eithafol diweddar. Y meysydd mwyaf o salwch oedd MSD, gyda phroblemau o ran amseroedd aros y GIG am driniaeth yn effeithio ar eu gwaith codi a thrin a'u gallu i weithio, a straen yn ymwneud â'r gwaith a straen nad oedd yn ymwneud â'r gwaith. Fodd bynnag, roeddent yn gweithio gydag adnoddau dynol ar gymorth lles pwrpasol ac eang yn gorfforaethol.

Gofynnodd Aelod a fyddai modd rhannu llenyddiaeth wedi'i diweddaru ar hyrwyddo prosesau recriwtio gofalwyr maeth gydag Aelodau. Nododd hefyd statws coch canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol, a holodd a fyddai hyn yn gwella bellach, a sut y byddai'n cael ei gyflawni.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y byddai llenyddiaeth ynghylch recriwtio gofalwyr maeth yn cael ei rhannu gyda phob Aelod. Bu iddi gydnabod y dirywiad sylweddol mewn perfformiad ym maes gofal cymdeithasol plant ar ddechrau chwarter 4 y llynedd, a oedd wedi cael ei reoli drwy ddigwyddiad critigol o ran IAA er mwyn sicrhau bod lefel uchel iawn o gymorth â ffocws, a hynny'n amserol, i oruchwylio'r gwelliannau a oedd yn amlwg ac a fyddai'n dod i'r amlwg mewn mesurau perfformiad mewn chwarteri dilynol.

Nododd Aelod y canran gweddol isel o staff a oedd wedi cyflawni'r modiwl e-ddysgu Diogelu, sef 72% yn y Gyfarwyddiaeth Addysg a 77% yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Holodd beth oedd ar waith o ran y staff nad oeddent wedi cyflawni'r modiwlau.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gydnabod y gall fod yn anodd sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cyflawni e-ddysgu Corfforaethol, gan eu bod eisoes wedi cael hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, er mwyn gwella nifer y bobl yn mynd ar yr hyfforddiant, nododd bod hyn yn debygol o ddigwydd drwy fonitro'r ffigur a chan gynnwys y dangosydd perfformiad ar fyrddau gwaith y Gyfarwyddiaeth. Dylid hefyd ei drafod mewn sesiynau goruchwylio unigol ac arfarniadau, yn ogystal â chynnwys yr hyfforddiant mewn cyfnodau ymsefydlu i'r rhai sy'n newydd i'r Cyngor.

Nododd Aelod bod y rhan fwyaf o'r ymrwymiadau ar y bwrdd gwaith Addysg a Chymorth i Deuluoedd â statws glas heb unrhyw ddata ar ddangosyddion perfformiad allweddol (KPI). Gofynnodd pryd y byddai'r data hwnnw ar gael i sicrhau bod yr ymrwymiadau ar y trywydd iawn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd wybod bod LIC wedi cyhoeddi model newydd ar gyfer atebolrwydd ar 27 Mehefin 2022, yn unol â diwygio'r cwricwlwm ac ADY, y Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd a oedd yn cynnwys y fframwaith ar gyfer KPIau a mesurau asesu cyhoeddus. Roedd y fframwaith yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion darparu llawer o bethau a fyddai'n galluogi i setiau data llawer cliriach gael eu cyhoeddi. Byddai crynodeb o Gynlluniau Gwella Ysgolion a Chynlluniau Datblygu Ysgolion yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn, a'i rannu â chyrff llywodraethu. Yna, byddai'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i feincnodi perfformiad, ar lefel unigol ac awdurdod lleol, ac KPIau yn cael eu darparu ar sail y feincnod hwnnw a'r targedau wedi'u haddasu.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ein bod wedi cyrraedd blwyddyn 3 mewn Cynllun Corfforaethol 3 blynedd, ac felly byddai nifer o fentrau a phrosiectau pwysig yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

Nododd Aelod bod lefel y salwch yn cynyddu, a gofynnodd sut roedd timau bach yn ymdopi pan fo aelodau'n sâl.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod y timau'n ymdopi hyd eithaf eu gallu, a bu iddo gydnabod y lefel uchel o salwch oherwydd MSD yn ymwneud â gwaith codi a chario. Nododd y problemau'n ymwneud â straen a lles staff, a chadarnhaodd bod y tîm presennol yn cyflenwi yn ystod cyfnodau byr o salwch, neu bod y gwaith yn aros am yr aelod staff pan fydd yn dychwelyd. Nododd hefyd y nifer ddigynsail o atgyfeiriadau, ac mai prin iawn oedd y staff a oedd wedi'u dirprwyo ar gyfer rhain. Nododd hefyd bod pwysau eithafol yn dod yn norm.

Amlygodd yr Aelod Cabinet Cymunedau ymhellach y lefel honno, a thôn amhriodol yr Atgyfeiriadau gan Aelodau, a'r effaith roedd hynny'n ei gael ar les Swyddogion.

Nododd Aelod yr angen i reoli disgwyliadau Aelodau a oedd yn cael gwybod y byddant yn derbyn ymateb i Atgyfeiriadau gan Aelodau o fewn 10 diwrnod gwaith. Nododd Aelod arall bod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn debygol o dderbyn mwy o Atgyfeiriadau gan Aelodau nag eraill gan mai dyma'r maes gwasanaeth y mae'r cyhoedd yn ei weld, a gofynnodd a oedd digon o gefnogaeth ar gyfer lles.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei bod wedi datblygu cynllun gweithredu pedwar cam ar gyfer Atgyfeiriadau gan Aelodau a oedd wedi'i rannu â Rheolwr Grŵp, ac a fyddai o bosibl yn cael ei gyflwyno fel Sesiwn Ddatblygu Aelodau. Amlygodd bod Atgyfeiriadau gan Aelodau wedi cynyddu o 3045 yn 2021-22 a oedd 1000 yn uwch na'r flwyddyn gynt. Yn y 10 wythnos ers yr etholiad, roedd 783 o Atgyfeiriadau gan Aelodau wedi dod i law, a 1093 o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd; roedd hyn yn ddigynsail.

Nododd Aelod yn rhan o'i Gyngor Cymuned, roedd wedi gofyn i gael gweld amserlenni torri gwaith yr ardal, a bod y cais wedi'i wrthod gan y gallai amgylchiadau newid, ac o ran MR, awgrymodd y dylid cyflwyno llythyr i Aelodau os roedd yn ymwneud â mater cymhleth, yn nodi bod angen rhagor o amser i ymchwilio.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei bod yn gweithio ar ddarparu cydnabyddiaeth i MR, a darparu unrhyw wybodaeth a oedd yn bosibl. Hefyd, byddai'n

awyddus i ddarparu amserlenni torri gwaith ac amserlenni cymunedol eraill ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau Cabinet, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

1. Dylid ymestyn y naratif ar gyfer PAM/015 (PSR002) Llywodraeth Cymru yn Atodiad A ynghylch Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, i egluro ei fod yn cynnwys pob person/grŵp.

A gofynnodd y Pwyllgor am:

2. Ymateb ysgrifenedig ynghylch y broses hirfaith o ddarbwyllo perchnogion eiddo i ddod â'u heiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gan gynnwys enghreifftiau a therfynau amser go iawn.

3. Llenyddiaeth wedi'i diweddaru ynghylch prosesau Pen-y-bont o hyrwyddo gwaith recriwtio gofalwyr maeth.

14. ENWEBIADAU I BANEL CRAFFU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Swyddog Craffu'r adroddiad, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod arall i fod yn rhan o Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ychwanegol i'r Cynghorydd Freya Bletsoe a'r Cynghorydd Simon Griffiths a gafodd eu henwebu yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor ar 30 Mehefin 2022.

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau, a oedd fel a ganlyn:

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu yn enwebu'r Cynghorydd Graham Walter i fod yn rhan o Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.

15. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu y Blaenraglen Waith amlinellol drafft arfaethedig i'r Pwyllgor yn Atodiad A er mwyn ei drafod a'i ystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Pwyllgor ei chael i gael ei rhoi fel eitem ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys unrhyw rai yr hoffai eu gwahodd, gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Blaenraglen Waith gan ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.6, a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi y byddai'r Blaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu yn cael eu hadrodd mewn cyfarfod o'r COSC, yn dilyn ystyriaeth yn y cylch presennol o gyfarfodydd COSC.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiadau canlynol gael eu hychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor:

1. Digartrefedd, Tai ac Eiddo Gwag gan gynnwys Opsiynau Tai ar gyfer y rhai sy'n Gadael Gofal

2. Cynnydd ar Berfformiad y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gan gynnwys trefniadau cymorth a ddarperir gan Gastell-nedd Port Talbot a oedd yn dod i ben ar ddiwedd 2022.

3. Cynllun Taliadau Costau Byw - unwaith y bydd wedi dod i ben, adroddiad ar gyflawniad gweithredol y cynllun / gwersi a ddysgwyd.

4. Recriwtio a Chadw'r Gweithlu

16. EITEMAU BRYS

Dim